



Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.

Porth Brexit Busnes Cymru wedi lansio

Mae porth newydd wedi'i ddatblygu i helpu busnesau Cymru i baratoi ar gyfer Brexit a llywio'r newidiadau a'r heriau sydd i ddod.

Mae'r porth wedi'i ddylunio i roi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf i gwmnïau ar amrywiaeth o faterion pwysig gan gynnwys masnachu rhyngwladol a chynllunio'r gweithlu.

Mae hefyd yn cynnwys adnodd diagnostig sy'n helpu busnesau i nodi pa mor barod ydynt ar gyfer Brexit, ac yn argymhell camau y dylent eu cymryd i wella eu cydnherthedd a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth ychwanegol.

! gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r [Porth Brexit](#)

Cyllid yr UE i gynyddu Sgiliau yn y Sector Gweithgynhyrchu Uwch

Er mwyn helpu gweithlu gweithgynhyrchu uwch Cymru i gadw ar drywydd y datblygiadau bydeang ym meysydd arloesi a thechnoleg, bydd y cyllid gan yr UE yn cefnogi mwy na 800 o bobl drwy'r prosiect Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0 a'r cynllun Gradd Meistr mewn Arloesi Rhyngwladol, a arweinir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Bydd y prosiect Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0, sy'n werth £3.7m ac sy'n cael £2.3m o gyllid gan yr UE, yn cynnig cymwysterau achrededig i tua 430 o weithwyr yn y diwydiant yng Nghymru, yn arbennig yn y sector gweithgynhyrchu uwch.

Bydd 390 o weithwyr o bob rhan o'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru yn cael hyfforddiant ôl-raddedig diolch i'r cynllun Gradd Meistr mewn Arloesi Rhyngwladol sy'n cael £3m o gyllid gan yr UE, ac sy'n werth £4.3m. Bydd yr hyfforddiant yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall pwysigrwydd arloesi mewn cyd-destun rhyngwladol deinamig.

£4 miliwn o Gyllid Ewropeaidd wedi'i gymeradwyo ar gyfer Canolfan Arfordirol Rhyngwladol newydd Cymru



Bydd Canolfan Arfordirol Rynwgladol Cymru yn Saundersfoot yn cynnwys pedwar datblygiad cysylltiedig: y Ganolfan Ragoriaeth Arfordirol a Chanolfan Stormydd Arfordirol; Dec Digwyddiadau Cenedlaethol; Canolfan Celfyddydau a Threftadaeth 'Ocean Square' a'r Schooner – llong hamdden dal hanesyddol.

Y prosiect yw'r olaf o'r 11 cyrchfan i dderbyn cadarnhad o ran cyllid, fel rhan o'r rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaid lle bydd £62m yn cael ei fuddsoddi yn y sector twristiaeth dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys £27.7m o gyllid yr UE. Gallwch ddarllen ragor am y Ganolfan [yma](#).

Data Perfformiad Rhanbarthol

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai o'r prif ffigurau ar gyfer perfformiad gweithrediadau a ariennir gan yr ESI o fewn Rhanbarth y Bae Abertawe.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cymru'n elwa o aronfevdd yr UE [yma](#).

Dangosydd Perfformiad	Figures for the South West Region
Mentrau a Gynorthwywyd ¹	1,543
Mentrau a Grëwyd ²	298
Swyddi a Grëwyd ³	2,722
Cyfranogwyr a Gynorthwywyd	45,706
Cyfranogwyr a Gefnogwyd I Gyflogaeth	3,440
Cyfranogwyr a Enillodd Gymwysterau	17,411
Cefranogwyr Mewn Addusg / Hyfforddiant	1,971

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

¹ Cyfanswm y Mentrau sy'n derbyn dangosyddion cymorth anariannol o dan Raglenni Gweithredol ERDF

² Cyfanswm y dangosyddion a gefnogir gan fentrau newydd o dan Raglenni Gweithredol ERDF

³ Cyfanswm y cynnydd Cyflogaeth mewn dangosyddion mentrau â chymorth o dan Raglenni Gweithredol ERDF

Launch of the 2018/2019 Employment and Skills Plan



Roedd Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, wedi llongyfarch Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru ar ddatblygiad ei Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2018/19.

Cafodd y Cynllun Sgiliau, sydd â'r nod o sicrhau bod ein cenhedlaeth nesaf yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ysgogi diwydiannau'r dyfodol, ei lansio'n swyddogol ar ddiwedd mis Tachwedd yn Stadiwm Liberty.

Mae dros 500 o gyflogwyr yn y rhanbarth wedi gweithio'n agos gyda thîm y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol er mwyn nodi'r sgiliau y mae angen eu gwella, ac mae'r Bartneriaeth wedi llwyddo i hwyluso'r gwaith partneriaeth rhwng amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau bod cynllun cynrychioladol yn cael ei ddatblygu, sy'n diwallu anghenion y rheiny sy'n gweithio, byw a dysgu yn y rhanbarth.

Nod y cynllun yw:

- Llywio a chefnogi ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru at ddarparu gwaith a sgiliau.
- Helpu i ddarparu amgylchedd dysgu ôl-16 sy'n addas at y diben.
- Cefnogi Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
- Gosod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf

Daeth mwy na 150 o bobl i'r digwyddiad lansio, 'Ein Sgiliau, Ein Dyfodol: Ysgogi Newid' a chawsant gyfle i wrando ar nifer o siaradwyr ysbrydoledig a chymryd rhan mewn gweithdy ynghylch y materion allweddol sy'n effeithio ar fusnesau ledled y rhanbarth. Ymhlith y siaradwyr oedd; Cynrychiolwyr Bwrdd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, the Big Learning Company, MiFuture, Innovate UK, Prifysgol Abertawe, River Simple, a Chreu Sbarc.

Cynigiwyd pedwar gweithdy amserol yn y digwyddiad; cynhaliodd Gyrfa Cymru weithdy ynghylch sut i helpu cyflogwyr i gefnogi addysg. Rhannodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth i gyn-droseddwyr. Daeth Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru at ei gilydd i gynnal gweithdy llawn gwybodaeth ynghylch prentisiaethau. Cynhaliwyd y gweithdy olaf gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn rhoi ystyriaeth i gefnogi pobl sydd ag anableddau i gael cyflogaeth.

Cliciwch [yma](#) i weld Cynllun Sgiliau 2018.

4 Canolfan Fenter newydd i sbarduno busnesau yng Nghymru



Mae Ken Skates Ysgrifennydd yr Economi wedi cyhoeddi heddiw mai Gaerwen, Y Drenewydd, Caerffili a Chaerfyrddin fydd y lleoliadau ar gyfer pedair canolfan Fenter ranbarthol i annog a chefnogi entrepreneuriaeth yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru, wedi'i hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, wedi buddsoddi dros £4 miliwn mewn Canolfannau Menter newydd, fydd yn rhoi lle i unigolion a chwmnïau rwydweithio, arloesi, sefydlu eu mentrau a chael mynediad i amrywiol wasanaethau cymorth, megis cyngor ar gyflwyno syniad, gweithdai a chanolfannau cyngor ar fusnes. Bydd entrepreneuriaid yn y canolfannau yn cael mynediad at yr amrywiol gymorth sydd ar gael gan Busnes Cymru a phartneriaid gan gynnwys Colegau, Prifysgolion, Awdurdodau Lleol a Banc Datblygu Cymru, sy'n cynnig system gefnogi syml a gweladwy i entrepreneuriaid, gyda chysylltiadau da, fel a hyrwyddwyd yn y cynllun Creu Sbarc.

Lleolir Canolfan Fenter Caerfyrddin yng Nghanolfan S4C Yr Egin ar gampws y Brifysgol yn y dre o dan arweiniad y fenter gymdeithasol, Busnes Mewn Ffocws. Mewn partneriaeth â Busnes Mewn Ffocws; Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Tramshed Tech; Canolfan Gydweithredol Cymru a Chynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro, bydd y Ganolfan yn cynnig lle i unigolion a chwmnïau ddechrau a thyfu eu busnesau mewn cymuned ysgogol a chroesawgar. Bydd hefyd gan y Ganolfan Fenter gysylltiad cryf â Chanolfan Arloesedd y Bont ym Mhenfro, y Goleudy yn Llanelli a Choleg Sir Gâr. **Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

Buddsoddiad o £9.5m o gyllid yr UE yn helpu Cymru i greu economi carbon isel

Mae'r Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford, wedi cyhoeddi y bydd dau brosiect ynni adnewyddadwy yn elwa ar £9.5m o gyllid yr Undeb Ewopaidd.

Bydd y cynllun GSCS (Generation Storage Consumption Supply), sy'n werth £14.4m, yn cael £9m o gyllid yr UE.

Bydd GSCS yn cynnig cyfleoedd i arbed arian mewn safleoedd ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Bydd cynllun gwerth £0.9m yn Abertawe – cynllun cymunedol i storio ynni'r haul a'i gyflenwi'n lleol yn uniongyrchol – yn cael £600,000 o arian o gronfeydd yr UE i gyflenwi trydan i hyd at 300 o ddefnyddwyr lleol.

Mae'r cynllun arloesol hwn wedi'i leoli ar y fferm solar gyntaf yng Nghymru i fod yn eiddo i'r gymuned, a'i nod yw creu model ynni cymunedol mwy o faint i gefnogi llawer mwy o gymunedau drwy Gymru. **Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol

Bydd cyllid ychwanegol o £2.7m gan yr UE yn helpu busnesau cymdeithasol Cymru i dyfu

Mae Ysgrifennydd yr Economi, Ken Skates, wedi croesawu'r buddsoddiad ychwanegol yn y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol a fydd hefyd yn helpu i greu swyddi cynaliadwy mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r cyllid sy'n adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol yr UE gwerth £1m, hefyd yn cynnwys £1m yn ychwanegol i'w neilltuo i Gronfa Datblygu Asedau Cymunedol newydd.

Gallwch ddarllen ragor am sut y mae'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol yn helpu busnesau [yma](#)

Gronfa Datblygu Asedau Cymunedol

Bydd cyllid ychwanegol o £2.7m gan yr UE yn helpu busnesau cymdeithasol Cymru i dyfu

Mae Ysgrifennydd yr Economi, Ken Skates, wedi croesawu'r buddsoddiad ychwanegol yn y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol a fydd hefyd yn helpu i greu swyddi cynaliadwy mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r cyllid sy'n adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol yr UE gwerth £1m, hefyd yn cynnwys £1m yn ychwanegol i'w neilltuo i Gronfa Datblygu Asedau Cymunedol newydd.

Gallwch ddarllen ragor am sut y mae'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol yn helpu busnesau [yma](#)

The Social Business Growth Fund and the Community Asset Development Fund are led by the Wales Council for Voluntary Action (WCVA).

Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 - 2020



Cynhaliwyd Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 - 2020 yng Nghaerdydd ar 5 Rhagfyr. Estynnodd Peter Ryland, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, groeso i'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a datblygiadau rhaglenni 2014-2020.

Cyflwynwyd y brif araiith gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Yn dilyn ei araiith, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyllid enillwyr Gwobrau Cronfeydd yr UE 2018.

Gwobrau Cronfeydd yr UE 2018

Prosiectau ESF: Mentor Gorau: Dathlu llwyddiant mentoriaid sydd wedi manteisio ar gyfleoedd a grëwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gan fynd cam ymhellach i helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd, cael swydd neu ddod o hyd i lwybr gyrfa newydd.

Mentor Gorau: Rhanbarth y De-orllewin

- Gemma Elizabeth Shore, Employment and Training Worker for Inspire2Work
- Suzanne Butterworth, Cymunedau at Waith Abertawe
- Anthony Phillips. Gweithffrydd +Castell-nedd Port Talbot

Enillwyr: Suzanne Butterworth

Prosiectau ERDF: Prosiect treftadaeth ddiwylliannol gorau

Dathlu prosiectau arloesol o ansawdd uchel, sydd wedi gwella'n sylweddol seilwaith ffisegol neu amgylchedd Cymru drwy dreftadaeth ddiwylliannol.

Enillydd: Lido Ponty - Lido Cenedlaethol Cymru

Ewrop Greadigol

Nod rhaglen Ewrop Greadigol yw cefnogi sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol Ewrop.

Mae'r gwahanol gynlluniau cyllido yn annog cyfranogwyr yn y sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol i weithredu ledled Ewrop er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn yr oes ddigidol.

I gael rhagor o wybodaeth ac i agor galwadau, cliciwch [yma](#)

Cymru'n sicrhau €100m o arian ymchwil a datblygu o un o gronfeydd cystadleuol yr UE

Horizon 2020 yw'r rhaglen ymchwil ac arloesi fwyaf erioed i gael ei chynnal gan yr UE. Ei nod yw cefnogi technoleg a gwyddoniaeth gwbl arloesol a hyrwyddo cydweithredu rhyngwladol er mwyn darparu atebion i'r prif heriau sy'n wynebu ein cymdeithas..

Mae'r rhaglen hon yn un hynod o gystadleuol, ond ers iddi gael ei lansio mae busnesau a phrifysgolion yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn dros 2,800 o brosiectau cydweithredol rhyngwladol.



Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau Erasmus+ 2019.

Bydd €187m ar gael i sefydliadau yn y DU drwy'r rhaglen.

Mae'r dyddiadau cau a gwybodaeth am y mathau o weithgareddau y gallwch wneud cais amdanynt ar gael [yma](#)

Interreg Gogledd Orllewin Ewrop

Mae'r nawfed alwad am gynigion prosiectau bellach ar agor. Y dyddiad cau yw 14 Mehefin 2019.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mae'r cyfleoedd cyllid cynllun RDG canlynol bellach ar agor

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Bwyd

Ffenestr Mynegi Diddordeb yn agor ar 15 Ionawr 2019

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - BWYD (RBISF) yn buddsoddi cyfalaf i helpu prosiectau sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cael helpu cwmnïau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.

Mae'n buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod nad yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cael eu helpu.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)

Mae'r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) yn gronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector Twristiaeth yng Nghymru. Gellir ei defnyddio naill ai i greu cynnyrch newydd o safon uchel neu i ddiweddarau cynnyrch presennol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cyswllt Ffermio rhaglen Gyfnewidfa Rheolaeth 2019

The application window is now open for the Farming Connect Management Exchange Programme 2019.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,

Business Resource Centre,

Ty Parcyrhun,

Ammanford.

SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@carmarthenshire.gov.uk

